"Yn wir, rwy'n dweud wrthych, pa le bynnag y pregethir yr Efengyl yn yr holl fyd, adroddir hefyd yr hyn a wnaeth hon, er cof amdani."
(Marc 14:9)

Dyma Iesu'n proffwydo y byddai hanes Mair yn cyd-fynd â phregethu'r Efengyl trwy'r byd. Edrychwn ar yr hanes gyda Mathew ac Ioan, yn ogystal â Marc.

Swper diolch

Mae'n chwe diwrnod cyn y Pasg, a Iesu ym Methania mewn swper arbennig. Mae nifer o bobl ddiolchgar iawn yn bresennol:

Simon y gwahanglwyfus

Mae'r swper yn cael ei gynnal yng nghartref Simon.
Mae'r enw 'gwahanglwyfus' wedi aros gydag e, o bosib, neu mae Mathew a Marc yn awyddus i ddangos ei gefndir. Mae Iesu wedi ei wella, mae'n amlwg. Pe byddai'r dyn yn dal yn wahanglwyfus, ni fyddai hawl ganddo i fod yn y pentref nac yn ei gartref. Mae'n ddarlun o'r maddeuant a gawsom ni o 'wahanglwyf' y pechod oedd yn ein gwahanu oddi wrth Dduw.

Lasarus

Roedd gan y cyfaill yma i Iesu reswm da dros fod yn ddiolchgar. Bu mewn bedd am bedwar diwrnod cyn i'r Atgyfodiad a'r Bywyd ei godi'n fyw. Dyma ddarlun o'r hyn wnaeth Iesu i ni, wrth ein codi i fywyd newydd, allan o farweidd-dra ysbrydol ein pechodau.

Mair a Martha

Dyma ddwy chwaer oedd wedi profi cwmni'r Gwaredwr droeon ar eu haelwyd. Dyma ddwy a gafodd eu brawd yn ôl o'r bedd. Ac mae'r Cristion yntau yn profi cwmni'r Gwaredwr ar daith bywyd, ac yn cael y wefr o weld eraill hefyd yn dod i'r bywyd sydd yng Nghrist.

Onid yw'r swper diolch ym Methania yn ddarlun da o fywyd y Cristion? Onid dyma ddylai'n bywyd ni fod bob dydd?

'Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
dim ond diolch yw fy lle' (Pantycelyn).

Agwedd Mair

Mae calon Mair mor llawn o gariad diolchgar nes ei bod yn tywallt ennaint drud

dros yr Arglwydd Iesu. Mae'n debyg bod yr ennaint yn dod o'r India ac yn cael ei ddefnyddio'n arbennig ar gyfer eneinio corff marw, ac, felly, mae'n debyg bod ei bersawr yn gryf.

Doedd Mair ddim yn ystyried y gost wrth wneud hyn. Roedd tri chan denarius bron iawn yn gyflog blwyddyn i lafurwr, felly, gallwn ddweud ei fod yn werth tua £12,000 yn ein harian ni heddiw.

Roedd torri'r pot alabaster yn symbol o awydd Mair i dywallt ei chariad diolchgar ar y Gwaredwr. Mae hefyd yn ddarlun o gariad Crist ei hun a fyddai'n cael ei dorri trosom ar groes Calfaria o fewn wythnos i'r digwyddiad hwn. Mae hi wedi creu darlun o aberth y groes heb yn wybod iddi, ac wedi paratoi ar gyfer claddu Iesu (adn.8).

Agwedd Jwdas

Mae Ioan yn dweud wrthym mai Jwdas Iscariot, yn arbennig, oedd yn achwyn am yr hyn a wnaeth Mair. Ef oedd trysorydd y disgyblion, ac roedd ganddo ddwylo blewog. Calon cybydd chwenychgar oedd gan Jwdas, felly. Ond er mwyn cuddio'i wir gyflwr, edliwiodd i Mair (a Iesu) y gallesid fod wedi defnyddio'r arian er lles mawr i'r tlodion. Mae cybydd-dra yn bechod difrifol yn yr Ysgrythur. Mae'n dangos calon wag o ddiolch ac o gariad sydd yn awchu am enillion tymhorol o unrhyw fath. Fe gofiwn fod Jwdas wedi mynd yn ei flaen i fradychu'r Arglwydd Iesu am ddeg darn arian ar hugain. Boed i Dduw yn ei ras ein gwaredu rhag cael calon Jwdas.

Agwedd Iesu

Mae Iesu'n derbyn gweithred Mair, ac yn ei disgrifio fel **'gweithred brydferth'.** Y rheswm am hyn yw fod Iesu'n gweld calon Mair. Efallai ei bod braidd yn fyrbwyll, efallai bod y weithred yn ymddangos yn eithafol, ond roedd Iesu'n gwerthfawrogi ac yn adnabod y cariad oedd tu ôl i'r weithred.

Hefyd mae Iesu'n amddiffyn Mair rhag cerydd Jwdas. Os oedd yn gwybod cyflwr calon Mair roedd yn adnabod calon Jwdas hefyd. Yn ei amynedd a'i drugaredd fawr, ni ddatgelodd gyflwr calon Jwdas yn gyhoeddus. Dywedodd yn syml y gallent helpu'r tlodion unrhyw bryd (os dyna oedd eu gwir ofal), ac mae hynny'n awgrymu nad oedd gormod o dystiolaeth wedi bod o ofal Jwdas am neb ond ef ei hunan.

Cyd-fynd â'r Efengyl

Wrth i ni edrych eto ar yr hanes hyfryd yma, gadewch i ni feddwl am ein bywyd ac am bob dydd fel cyfle i fynegi'n diolch i'r Arglwydd am ei ras yn ein bywydau. Boed i ni gael agwedd calon Mair, yn llawn cariad diolchgar at ein Prynwr. Does dim ots os byddwn yn fyrbwyll ac yn eithafol weithiau, does dim ots os gwnawn ambell i gamgymeriad, oherwydd bydd yr Arglwydd yn ymateb i'r hyn fydd yn ei weld yn y galon.